LANEq305

# Monitro a chynnal stociau bwyd a deunydd gwely ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro a chynnal stociau bwyd a deunydd gwely ar gyfer ceffylau, yn cynnwys sicrhau bod cyflenwad digonol, monitro storfa a rheoli'r ffordd y caiff stociau eu trin. Dylech fod yn gallu gwirio'r cyflenwad a chymryd y camau priodol os oes unrhyw namau neu ddiffygion. Bydd angen i chi hefyd allu storio a defnyddio bwyd a deunydd gwely yn effeithiol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. derbyn bwyd a deunydd gwely ar gyfer ceffylau a'u gwirio yn erbyn nodiadau dosbarthu ac archebion gwreiddiol
3. asesu ansawdd bwyd a deunydd gwely ceffylau
4. cofnodi unrhyw namau neu ddiffygion, hysbysu'r person priodol ynghylch y rhain a chymryd y camau priodol
5. storio cyflenwadau yn briodol a chylchdroi stoc lle bo angen
6. defnyddio bwyd a deunydd gwely ceffylau yn briodol
7. monitro a chofnodi stoc i gynnal y lefelau gofynnol o fwyd a deunydd gwely
8. gweithredu'n briodol pan fydd stociau bwyd a deunydd gwely'n cyrraedd y lefel ofynnol ar gyfer ailarchebu
9. cyfathrebu gydag eraill a chynnal gwaith tîm effeithiol
10. defnyddio technegau codi ac ymdrin diogel bob amser
11. monitro a chynnal iechyd a diogelwch ceffylau, chi eich hun ac eraill yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. pam y dylid gwirio dosbarthiadau bwyd a deunydd gwely ceffylau yn erbyn y nodyn dosbarthu a'r archeb wreiddiol ac olrhain unrhyw ddiffygion
3. y dulliau effeithiol o storio mathau gwahanol o fwyd a deunydd gwely ceffylau a diben argymhellion y gwneuthurwr o ran storio
4. sut y gallai storio gwael effeithio ar fwyd a deunydd gwely ceffylau
5. pam y mae'n rhaid defnyddio bwyd ceffylau yn systemataidd
6. diben monitro a chynnal stociau bwyd a deunydd gwely ceffylau a'r effaith y gallai lefelau isel ei gael
7. pa gamau i'w cymryd pan fydd stociau bwyd a deunydd gwely ceffylau yn cyrraedd y lefel ofynnol ar gyfer ailarchebu
8. pam y dylid cofnodi a hysbysu ynghylch unrhyw niwed, a chanlyniadau posibl peidio gwneud hynny
9. pwysigrwydd gwerthuso'r camau a gymerir wrth ymdrin ag unrhyw broblem gyda stociau bwyd a deunydd gwely ceffylau
10. y dulliau o storio ac ymdrin â stociau bwyd a deunydd gwely ceffylau
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq305

Monitro a chynnal stociau bwyd a deunydd gwely ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq305 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; stoc bwyd; bwyd; deunydd gwely; ymdrin |